

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

<b>Enw / Name:</b>	Owen Evans
<b>Rôl / Role:</b>	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
<b>E-bost / Email:</b>	<a href="mailto:Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru">Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru</a>
<b>Rhif Ffôn / Tel No:</b>	029 2044 6446
<b>Dyddiad / Date:</b>	19.12.22
<b>Pwnc / Subject:</b>	<b>Ymgynghoriad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar flaenoriaethu cwynion mynediad at wybodaeth</b>

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion pob oed, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

## Ymateb

### Cyflwyniad

Rydym yn gefnogwyr cadarn 'tryloywder' a bod rhyddid gwybodaeth yn hollbwysig i lywodraethu da.

Mae'r ymgynghoriad yn nodi bod angen i bob corff cyhoeddus wneud mwy gyda llai mewn termau real a bod angen cynyddol am gefnogi awdurdodau cyhoeddus sydd dan bwysau. Yng nghyd-destun llai o adnoddau, mae'n ddefnyddiol yn ein barn ni eich bod yn cyfeirio at y mentrau ehangach i wella'r ddarpariaeth, fel:

- defnyddio technegau datrys anghydfodau, lle bo'n bosibl
- cynnig mwy o gymorth i awdurdodau lleol i'w helpu i'w chael hi'n iawn y tro cyntaf
- gwella ansawdd penderfyniadau pan wneir ceisiadau yn gyntaf.

Rydym yn croesawu'r bwriad gan y Comisiynydd Gwybodaeth i fynd i'r afael â'r oedi sydd wedi sleifio i'r system ar gyfer delio â chwynion gwybodaeth a chefnogwn y syniad o weithio'n wahanol a blaenoriaethu'n rhagweithiol yr achosion hynny sydd o'r budd pennaf i'r cyhoedd.

Yn unol â'r cais, cynigiwn ambell farn am y cynigion yn yr ymgynghoriad, o dan y cwestiynau isod.

Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r arweiniad terfynol ar y meini prawf arfaethedig ar gyfer blaenoriaethu achosion yn gryno, yn glir ac yn bendant, gydag enghreifftiau clir, lle bo'n briodol.

### Cwestiynau'r ymgynghoriad

**C1.** A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiynydd, i sicrhau'r budd mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael iddo ar gyfer ei waith ar gwynion mynediad at wybodaeth, flaenoriaethu achosion o'r budd mwy arwyddocaol i'r cyhoedd, yn hytrach na pharhau â dull 'rheol y rhes cabiau' o ddelio ag achosion yn ôl trefn dyddiad?

- Ydym  
 Nac ydym

Os na, esboniwch pam.

**C2.** A ydych chi'n cytuno â'r ffactorau arfaethedig a fydd yn llywio penderfyniadau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ba achosion i'w blaenoriaethu?

- Ydym  
 Nac ydym

Os na, pa ffactorau ydych chi'n anghytuno â nhw a pham? A oes unrhyw ffactorau ychwanegol y byddech yn eu cynnwys?

Nid oes gennym newidiadau i'w hawgrymu.

O ran bod blaenoriaethu yn dwyn buddion gweithredol / yn cefnogi'r rhai sy'n cael eu rheoleiddio, rydym yn cytuno y byddai datrys yn gynnar o fudd i'r achwynydd a'r corff cyhoeddus lle y mae cynseiliau clir wedi'u gosod ac mae safiad gan y Comisiynydd Gwybodaeth eisoes ynghylch y wybodaeth y gofynnwyd amdani.

**C2(a).** Yn benodol, a ydych chi'n cytuno bod blaenoriaethu achosion ar sail pwy sydd wedi gwneud y cais yn ffactor priodol o ran budd y cyhoedd?

- Ydym  
 Nac ydym

Os ydych, a oes unrhyw grwpiau neu fathau eraill o bobl sy'n gwneud cais y dylid eu cynnwys, yn eich barn chi?

Cytuno. Nid oes gennym newidiadau i'w hawgrymu. Croesewir ffocws ar gefnogi grwpiau agored i niwed neu grwpiau tebyg.

**C3.** A oes gennych unrhyw sylwadau ar y safonau gwasanaeth (neu Ddangosyddion Perfformiad Allweddol) y dylem eu gosod ar gyfer delio â'n cwynion Rhyddid Gwybodaeth neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol?

Cytunwn â'r safonau gwasanaeth a restrir a nodwn eich bod wedi cynyddu eich targed o ran 'cwblhau achosion o fewn chwe mis o'u derbyn'. Efallai y byddwch am ystyried safon cwblhau ar wahân ar gyfer achosion â blaenoriaeth. Bydd myfyrio'n rheolaidd ar y safonau/targedau hefyd yn sicrhau eu bod yn ystyrllon ac yn uchelgeisiol.

Ochr yn ochr â'r safonau, efallai y byddwch am ystyried dangosydd i fesur boddhad â'r gwasanaeth – rhywbeth efallai'n ymwneud â thegwch / dyfarniadau cadarn.

**C4.** A ydych chi'n cytuno bod 6 wythnos yn ddigon o amser i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth?

- Ydw  
 Nac ydw

Os nad ydych, esboniwch pam mae angen amser ychwanegol yn eich barn chi, neu beth ddylai unrhyw feini prawf eithrio ei gynnwys.

Cytunwn fod chwe wythnos yn rhoi digon o amser i gwyno. Nodwn y byddwch yn caniatáu am amgylchiadau eithriadol, fel salwch.

**C5.** A oes gennych unrhyw sylwadau am ymagwedd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth at weithredu hawl statudol y Comisiynydd i beidio â gwneud penderfyniad pan fydd cwyn yn flinderus neu'n wacsaw?

Cytunwn â'r ymagwedd hon. Mae hyn yn cefnogi'r amcan – sef peidio â gwastraffu adnoddau cyhoeddus (y Comisiynydd Gwybodaeth a'r corff cyhoeddus) yn ddiangen ar geisiadau blinderus a gwacsaw.

Rydym yn cefnogi'r cynnig, sef pan fydd yn ymddangos bod corff cyhoeddus wedi dilyn arweiniad y Comisiynydd yn glir ynghylch ceisiadau blinderus, wedi'i fodlu ar y profion sydd wedi'u hamlinellu gan y Tribiwnlys, na fyddwch yn gwneud penderfyniad gan y byddwch o'r farn bod y gŵyn ei hun yn flinderus. Mae'r arweiniad ar y wefan yn y maes hwn yn helaeth – byddai rhywfaint o hyfforddiant ymarferol (efallai mewn grwpiau rhwydwaith) i awdurdodau cyhoeddus ar gymhwyso'r profion a amlinellwyd gan y Tribiwnlys, yn ddefnyddiol iawn. Yn wir, byddai rhai cyfarfodydd / hyfforddiant rhwydwaith ar arweiniad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn fwy cyffredinol yn dderbyniol iawn.

O ran ceisiadau/cwynion gwacsaw, byddem yn ychwanegu y dylai arweiniad clir a chyson fodoli ar gyfer penderfynu beth yw 'budd prin i'r cyhoedd yn y wybodaeth y gofynnwyd amdani'.

## Amdanoch chi

**C7.** A ydych chi'n ateb fel:

- Cynrychiolydd adran y llywodraeth
- Cynrychiolydd corff sector cyhoeddus y tu hwnt i lywodraeth ganolog
- Newyddiadurwr neu aelod arall o'r wasg
- Cynrychiolydd corff 'trydydd sector'/'cymdeithas sifil' (e.e. elusen, sefydliad gwirfoddol a chymunedol, menter gymdeithasol neu felin drafod)
- Academydd
- Unigolyn yn gweithredu mewn rhinwedd broffesiynol
- Unigolyn yn gweithredu mewn rhinwedd breifat (e.e. rhywun sy'n rhoi ei farn fel aelod o'r cyhoedd)
- Cyflogai Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Arall

Os atebwch 'Arall', sicrhewch eich bod yn rhoi manylion yma.